WELSH LANGUAGE SCHEME
CYNLLUN IAITH GYMRAEG

CYFLWYNIAD

Mae Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd (CCHA) yn gymdeithas tai gymunedol, ac mae'n un o'r prif ddarparwyr tai fforddiadwy yng Nghaerdydd. Rydym yn rheoli dros 2,500 o dai fforddiadwy o ansawdd dda i'w rhentu a'u gwerthu, ac yn diwallu anghenion ystod eang o bobl. Rydym yn gweithio yng nghymunedau Adamsdown, Blackweir, Butetown, Bae Caerdydd, Cathays, Llanedeyrn, Tredelerch, y Sblot, Tremorfa a Trowbrige y ddinas; buom yn gweithio yng Nghaerdydd ers tri deg mlynedd.

Ein Gweledigaeth

Darparu tai a gwasanaethau fforddiadwy o ansawdd dda i'n cwsmeriaid mewn ffordd atebol a, thrwy weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, helpu i ddatblygu a chynnal cymunedau sy'n ffynnu.

Ein Hamcanion Allweddol

1. darparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid

2. darparu cartrefi newydd a'u cynnal a'u cadw yn unol â safon uchel

3. gwella'r cymunedau lle rydym yn gweithio

4. mabwysiadu ymagwedd ddoeth ond arloesol tuag at reoli ein busnes

5. sicrhau mai profiad gwych yw bod yn rhan o Dîm CCHA

Mae CCHA yn gymdeithas tai elusennol; rydym wedi ein harchredu gan Nod Siarter a Buddsoddwyr mewn Pobl.

Mae CCHA wedi mabwysiadu'r egwyddor a sefydlwyd o dan DDEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993 y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus, hyd eithaf ei gallu, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Y cyd-destun ar gyfer yr ymrwymiad hwn yw'r galw am y Gymraeg ymhlith ein cwsmeriaid, proffil ieithyddol yr ardaloedd yr ydym yn gweithio ynddynt, priodoldeb i amgylchiadau CCHA, ac felly'r hyn sy'n rhesymol ymarferol. Rydym wedi cadarnhau hyn drwy ymgynghori â'n cwsmeriaid, ein tîm a thrwy ddefnyddio gwybodaeth gyhoeddus arall sydd ar gael i ni.

Rydym wedi sefydlu bod y galw am wasanaethau iaith Gymraeg yn gymharol fach ar hyn o bryd yn yr ardaloedd lle rydym yn gweithio. Felly, credwn ei bod yn amhriodol i'r Gymdeithas fabwysiadu polisi cwbl ddwyieithog ar gyfer ei gwaith ac wrth ddarparu gwasanaethau. Fodd bynnag, byddwn yn hysbysu pawb yr ydym yn cynnal busnes ag ef ein bod yn croesawu ymdrin â phobl naill ai yn Gymraeg neu Saesneg, a'n bod yn parchu hawl ein cwsmeriaid i gyfathrebu â ni drwy gyfrwng eu dewis iaith. Mae'r cynllun yn amlinellu'r gwasanaethau yr ydym yn ymrwymedig i'w darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bwriadwn weithio gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu'r cynllun hwn ymhellach yn unol â'i gyngor ac yn unol ag unrhyw ofynion Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bwriadwn groesawu'r iaith Gymraeg yn yr ysbryd cywir.

CYNLLUNIO GWASANAETHAU

Polisïau a Mentrau Newydd

Wrth i ni ddatblygu polisïau newydd, byddwn yn sicrhau ein bod yn asesu unrhyw ganlyniadau ieithyddol.

Yn ogystal, byddwn yn sicrhau bod staff a chynghorwyr sy'n ymwneud â llunio polisïau yn ymwybodol o'r cynllun a chyfrifoldebau'r sefydliad o dan y Ddeddf.

Rydym am ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i bawb yr ydym yn gweithio ag ef. Nid ydym am i ddewis iaith person amharu ar effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir gennym.

Mae CCHA yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Gweithiwn ar sawl lefel wrth weithio gydag eraill:

- os mai CCHA yw'r arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, bydd yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn cydymffurfio â'n Cynllun Iaith

- pan fydd CCHA yn ymuno â phartneriaeth a arweinir gan gorff arall, bydd ein cyfraniad i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'n Cynllun Iaith a byddwn yn annog partïon eraill i gydymffurfio

- pan fydd CCHA yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi iaith. Wrth weithredu'n gyhoeddus ar ran y consortiwm, byddwn yn gweithredu'n unol â'n Cynllun Iaith

Darparu Gwasanaeth

Ein nod yw darparu gwasanaeth o safon uchel yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r broses o ddarparu ein gwasanaeth Iaith Gymraeg yn cysylltu'n uniongyrchol â'n Cynllun Cyfathrebu, a dyma grynodeb ohono:

Gwasanaethau Cyfathrebu

Drwy gyfeirio clir byddwn yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir gennym. Bydd pob dogfen allweddol yn cynnwys y datganiad canlynol:

Os hoffech i ni gyfieithu unrhyw ran o'n gwybodaeth i'r Gymraeg, gofynnwch os gwelwch yn dda. Gallwch wneud hyn drwy ddod i'n gweld neu ysgrifennu atom yn y cyfeiriad isod neu drwy ffonio 029 2046 2142. Gofynnwch am Wasanaethau'r Cwsmer os gwelwch yn dda. Os byddai'n well gennych siarad â ni yn y Gymraeg gallwn drefnu i siaradwr Cymraeg fod yn bresennol mewn apwyntiad.

Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd
Tŷ Callaghan
50 Meteor Street
Adamsdown

Caerdydd
CF24 0HE

Dangosir y datganiad hwn ym mhob un o dderbynfeydd CCHA.

Ein nod yw croesawu a galluogi cyfraniadau mewn ieithoedd cymunedol eraill a dulliau cyfathrebu eraill, sef:

- iaith arwyddion
- fformatau amgen: CD neu dâp sain, a Braille
- fformatau print mawr
- gwasanaethau cyfieithu

Byddwn yn ceisio cadarnhau dewis iaith ein cwsmeriaid a sicrhau ein bod yn parchu'r safonau a bennwyd gan ein cynllun.

Mae copi llawn o'r Cynllun Cyfathrebu ar gael ar gais.

Byddwn yn ceisio sicrhau bod gennym ddigon o aelodau o staff sy'n ddigon cymwys a hyderus i gynnig cymorth a gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg, yn briodol i anghenion ein cwsmeriaid a'r sefydliad.

Y CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

Gohebiaeth ysgrifenedig

Mae CCHA yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. Byddwn yn hysbysu ein cwsmeriaid bod croeso iddynt gyfathrebu â CCHA yn Gymraeg neu Saesneg.

Rydym yn ymrwymo y byddwn yn ymdrin â gohebiaeth yn brydlon ac yn effeithlon. Byddwn yn ymateb o fewn yr un amserlen waeth beth fydd iaith yr ohebiaeth.

Ymatebir i ohebiaeth a dderbynnir sy'n gofyn am ateb yn iaith wreiddiol yr ohebiaeth.

Byddwn yn ceisio cadarnhau beth yw dewis iaith pob tenant a sicrhau y caiff hyn ei nodi'n glir ar ffeiliau unigol a sefydlu cronfa ddata o'r bobl sy'n dymuno ymdrin â'r sefydliad yn Gymraeg. Os bydd CCHA yn dechrau gohebu yna bydd yr ohebiaeth yn newis iaith y derbynnydd, os yw'n hysbys.

Darperir canllawiau ar gydraddoldeb iaith i'r holl staff mewn perthynas â gohebiaeth ysgrifenedig. Os nad yw'n bosibl i'n staff ateb gohebiaeth yn Gymraeg i safon uchel byddwn yn defnyddio cyfieithwyr proffesiynol.

Cyfathrebu ar Lafar mewn Derbynfeydd Cyhoeddus, Wyneb yn Wyneb a thros y Ffôn

Mae CCHA yn croesawu ymholiadau personol yn Gymraeg neu Saesneg.

Darperir canllawiau ar gydraddoldeb iaith i'r holl staff mewn perthynas â chyfathrebu ar lafar.

Pan fydd pobl yn ffonio sy'n dymuno siarad Cymraeg, bydd staff y Switsfwrdd / Dderbynfa yn cyfeirio galwadau i siaradwr Cymraeg priodol, os bydd hyn yn bosibl. Lle nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, rhoddir cyfle i'r rhai sy'n ffonio naill ai i barhau â'r alwad yn Saesneg neu aros i siaradwr Cymraeg eu ffonio yn ôl. Yna rhoddir ateb ysgrifenedig yn Gymraeg.

Pan gynhelir ymweliadau â chartrefi neu gyfweliadau a lle mai dewis iaith yr ymgeisydd/tenant yw Cymraeg byddwn yn ceisio darparu aelod o staff sy'n siarad Cymraeg os bydd hyn yn bosibl ac yn ymarferol.

WYNEB CYHOEDDUS Y SEFYDLIAD

Hunaniaeth Gorfforaethol

Rydym yn ymrwymo i ddatblygu delwedd gorfforaethol ddwyieithog o'r sefydliad. Bydd enw a chyfeiriad CCHA ac unrhyw wybodaeth sylfaenol yn ymddangos yn y ddwy iaith ar bob dogfen gyhoeddus e.e. papur pennawd, cyhoeddiadau, arwyddion, cardiau busnes, slipiau cyfarch, tudalennau blaen ffacs.

Wrth wneud cais i Gyngor Dinas Caerdydd am ganiatâd i enwi datblygiad newydd, bydd y Gymdeithas yn ceisio awgrymu enwau Cymraeg priodol sydd â chysylltiad lleol, lle y bo'n briodol. Lle rhoddir enw Cymraeg i ddatblygiadau, defnyddir y sillafiad Cymraeg ar bob arwydd, oni bai bod yr awdurdod lleol/swyddfa'r post yn gorchymyn fel arall.

Llenyddiaeth Argraffedig ac Adroddiadau Cyhoeddedig

Bydd CCHA yn cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol yn Gymraeg a Saesneg. Drwy gyfeirio clir byddwn yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir gennym.

Efallai y bydd dogfennau arbennig lle y bydd yn briodol cyhoeddi neu ddarparu fersiwn Cymraeg; lle y bo'n rhesymol, caiff hyn ei ddarparu. Os ceir galw mawr am ddogfennau Cymraeg ar unrhyw adeg yn y dyfodol, yna caiff y polisi hwn ei adolygu.

Wrth i ddogfennau newydd gael eu cynhyrchu, byddwn yn asesu'r angen i ddarparu fersiynau Cymraeg ohonynt Lle byddwn yn cynhyrchu dogfennau Cymraeg byddwn bob amser yn ffafrio dogfennau dwyieithog, yn hytrach na fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Mewn cyfarfodydd cyhoeddus, bydd CCHA fel arfer yn cynnal y trafodion yn Saesneg; fodd bynnag, byddwn yn asesu a yw gwasanaethau cyfieithu yn angenrheidiol mewn cysylltiad â materion penodol e.e. byddwn yn ceisio cadarnhau dewis iaith y rhai sy'n mynychu/cyfranogwyr, a darparu gwasanaethau cyfieithu os bydd angen digonol. Byddwn yn hysbysu

cynadleddwyr, ymlaen llaw os yw'n bosibl, os bydd staff sy'n siarad Cymraeg yn bresennol.

Croesawn gyfarfodydd â'r cyhoedd yn Gymraeg neu Saesneg, ond yn sgîl prinder siaradwyr Cymraeg mewn rhai meysydd, ni allwn warantu cyfarfod wyneb yn wyneb yn Gymraeg ar bob adeg. Os byddwn yn methu'n rheolaidd ag ateb y galw bydd yn ystyried cymryd camau gweithredu megis adleoli staff, hyfforddiant a recriwtio.

www.ccha.org.uk

Ar hyn o bryd, mae ein safle rhyngrwyd yn Saesneg. Mae'n nodi'n glir pa wasanaethau cyfathrebu a ddarperir gennym. Caiff ein Cynllun Iaith Gymraeg ei roi ar ein gwefan.

Efallai y bydd rhai tudalennau gwe lle y bydd yn briodol cyhoeddi neu ddarparu fersiwn Cymraeg; lle y bo'n rhesymol, caiff hyn ei ddarparu. Os ceir galw mawr am ddogfennau Cymraeg ar unrhyw adeg yn y dyfodol, yna caiff y polisi hwn ei adolygu.

Bydd 'hafan' ein gwefan yn cynnwys cyfarchiad yn Gymraeg. Byddwn yn ystyried gofynion ein Cynllun wrth ddarparu neu gynllunio systemau technoleg gwybodaeth newydd, neu wrth ddarparu cyfryngau rhyngweithiol.

Arwyddion a Hysbysiadau

Bydd yr holl arwyddion newydd a godir y tu allan i safleoedd CCHA neu a atodir i adeiladau ac arwyddion y tu mewn i'n safleoedd yn ddwyieithog. Os byddant ar wahân bydd yr arwyddion yn Gymraeg a Saesneg o'r un maint a'r un mor hawdd i'w darllen.

Polisïau, Ffurflenni a Gwybodaeth Esboniadol Gysylltiedig

Fel arfer, bydd ffurflenni a gwybodaeth esboniadol a gyhoeddir i denantiaid ac ymgeiswyr ar gael yn Saesneg. Drwy gyfeirio clir byddwn yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir gennym.

Efallai y bydd dogfennau arbennig lle y bydd yn briodol cyhoeddi neu ddarparu fersiwn Cymraeg; lle y bo'n rhesymol, caiff hyn ei ddarparu. Os ceir galw mawr am ddogfennau Cymraeg ar unrhyw adeg yn y dyfodol, yna caiff y polisi hwn ei adolygu.

Datganiadau i'r Wasg a Chynadleddau'r Wasg

Fel arfer, caiff y rhain eu cynnal yn Saesneg. Efallai y bydd hysbysiadau neu ddigwyddiadau penodol lle ystyrir eu cyflwyno'n ddwyieithog; lle y bo'n rhesymol, caiff hyn ei ddarparu.

Hysbysebu

Mae angen ystyried pob ymgyrch hysbysebu a chyhoeddusrwydd yn unigol, gan gofio maint a natur y gynulleidfa darged, yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch, amseru, pwysigrwydd, galw a gwerth am arian bob amser.

Fel arfer, caiff yr hysbysebu ei gynnal yn Saesneg. Lle y bo'n briodol, drwy gyfeirio clir byddwn yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfathrebu a ddarperir gennym.

Efallai y bydd hysbysebion penodol lle bydd yn briodol cyhoeddi neu ddarparu fersiwn Cymraeg; lle y bo'n rhesymol, caiff hyn ei ddarparu.

GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

Staffio a Recriwtio

Mae CCHA yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i bawb y mae'n cynnal busnes ag ef yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ein nod yw sicrhau bod gennym niferoedd digonol o staff sy'n gymwys yn Gymraeg yn y meysydd hynny lle mae angen y sgiliau hynny arnom. Wrth lunio disgrifiadau swydd a manylebau person, rhoddir ystyriaeth ofalus i unrhyw angen posibl i allu siarad neu ysgrifennu yn Gymraeg.

Lle y mae'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer y swydd, bydd yr hysbyseb yn ymddangos yn ddwyieithog ac efallai y'i rhoddir mewn cyhoeddiadau Cymraeg ychwanegol. Bydd gwybodaeth atodol, megis disgrifiadau swydd, ar gael yn Gymraeg ar gyfer swyddi sydd â gofynion iaith Gymraeg.

Dysgu Cymraeg yn y Gweithle

Mae CCHA yn ymrwymo i gynorthwyo staff i ddysgu Cymraeg lle bynnag y gall wneud hynny. Bydd y math o hyfforddiant iaith a gynigir i staff yn briodol i anghenion personol a phroffesiynol pob unigolyn, a gofynion busnes y sefydliad, ond gallai gynnwys:

- cyflwyniad cyffredinol i'r iaith ar gyfer dechreuwyr
- sesiynau meithrin hyder ar gyfer staff sydd â rhywfaint o wybodaeth am yr iaith
- Cymraeg ar gyfer staff rheng flaen
- cyrsiau uwch ar gyfer siaradwyr mwy hyfedr. Gwella hyfedredd mewn Cymraeg ysgrifenedig

Aelodau'r Bwrdd

Bydd CCHA yn annog cymysgedd o siaradwyr Cymraeg a Saesneg ar ei Bwrdd Rheoli drwy gynnwys iaith yn yr adolygiad blynyddol o sgiliau Aelodau Bwrdd. Efallai y bydd y Bwrdd yn penderfynu blaenoriaethu siaradwyr Cymraeg wrth recriwtio a chyfetholi aelodau newydd.

Trefniadau Gweinyddol

Mae'r ymrwymiadau a'r trefniadau a nodir yn y cynllun hwn wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd CCHA; bydd gan Gyfarwyddwyr awdurdod llawn y sefydliad wrth eu gweithredu.

Bydd CCHA yn sicrhau bod pawb yn y sefydliad yn gyfarwydd â'r cynllun a bod staff yn gwybod sut y dylid ei weithredu a'r hyn a ddisgwylir ganddynt.

Bydd cyflwyno'r polisi hwn yn rhan o broses sefydlu staff CCHA.

Monitro ein Cynllun Iaith Gymraeg

Cyfrifoldeb yr holl Gyfarwyddwyr fydd sicrhau bod staff yn ymwybodol o Gynllun Iaith Gymraeg CCHA a chyfrifoldebau CCHA ynddo.

Mae gan y Prif Weithredwr gyfrifoldeb ar lefel gorfforaethol am fonitro'r Cynllun; fodd bynnag, bydd gan bob Cyfarwyddwr gyfrifoldeb am eu meysydd gweithredu penodol. Bydd y cynllun yn destun adroddiad blynyddol i Fwrdd y Gymdeithas a thenantiaid; caiff copi o'r adroddiad ei anfon i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Caiff cwynion ysgrifenedig, gan denantiaid, cleientiaid ac aelodau'r cyhoedd, yn sgîl peidio â chydymffurfio â'r cynllun, eu cynnwys yn y broses fonitro. Bydd y canlynol ymhlith elfennau eraill yn y system fonitro:

- y gyfran o ohebiaeth Gymraeg a Saesneg a atebir o fewn y terfyn amser targed
- nifer a dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg yn y sefydliad
- nifer yr aelodau o staff sy'n ymgymryd â chyrsiau Cymraeg
- y graddau y mae wyneb cyhoeddus y Gymdeithas yn gwbl ddwyieithog; e.e. arwyddion, papur pennawd
- nifer y ceisiadau a dderbynnir am fersiynau Cymraeg o gyhoeddiadau penodol, ffurflenni cais a deunyddiau cyhoeddusrwydd
- nifer y tenantiaid sydd wedi gofyn am ohebiaeth yn Gymraeg

DATGANIAD CWYNION

Ymdrinnir â chwynion am y ffordd y mae'r Gymdeithas yn cyflawni ei hymrwymiad gwasanaeth fel y nodir yn y polisi hwn yn unol â pholisi a gweithdrefn gwyno safonol y Gymdeithas, a fydd ar gael yn Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd sy'n ymdrin â'r Gymdeithas yn gwybod am y Cynllun hwn a byddwn yn sicrhau ei fod yn cael ei gyhoeddi mewn lleoliad amlwg ar ein gwefan.

CYMDEITHAS TAI CYMUNED CAERDYDD
MAI 2008